Sgiliau Hanfodol Cymru
Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol (ECommS)
Lefel 3 – Tasg dan Reolaeth
Pecyn i Ymgeiswyr

Pleidleiswyr Ifanc

Sampl
Fersiwn 2.0

Enw'r Ymgeisydd:
Rhif yr Ymgeisydd:
Dyddiad cofrestru ar gyfer ECommS:
Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) *(os yw'n berthnasol)*:
Enw *neu* Rif y Ganolfan:

Cyfarwyddiadau

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi eich enw, eich rhif ymgeisydd, eich ULN (os yn berthnasol) ac enw neu rif y ganolfan yn y blychau ar dop y dudalen hon.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud **pob** rhan o'r dasg.

Mae gennych chi **8 awr** i orffen y dasg, ond mae'n bosib rhannu'r amser hwnnw dros nifer o sesiynau. Mae'n **rhaid** i chi gofnodi isod beth oedd dyddiad dechrau a dyddiad gorffen pob sesiwn:

Dyddiad **dechrau**'r dasg dan reolaeth:							
Dyddiad **gorffen** y dasg dan reolaeth (*dim mwy nag wyth wythnos yn ddiweddarach):*							
Sesiwn 1	**Sesiwn 2**	**Sesiwn 3**	**Sesiwn 4**	**Sesiwn 5**	**Sesiwn 6**	**Sesiwn 7**	**Sesiwn 8**
	Dyddiad	*Dyddiad*	*Dyddiad*	*Dyddiad*	*Dyddiad*	*Dyddiad*	*Dyddiad*
Hyd	*Hyd*	*Hyd*	*Hyd*	*Hyd*	*Hyd*	*Hyd*	*Hyd*
Cyfanswm yr amser a dreuliwyd yn gwneud y dasg:							

Os oes angen mwy nag wyth sesiwn arnoch chi, rhowch ddyddiad/hyd bob sesiwn arall ar dudalen ar wahân.

Cynhyrchwyd ar y cyd gan y pedwar corff dyfarnu Sgiliau Hanfodol:
Agored Cymru
City & Guilds
Pearson
CBAC

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys senario, cyfarwyddiadau a ffynonellau gwybodaeth.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen drwy'r senario, y cyfarwyddiadau a'r wybodaeth sydd yn y ffynonellau yn ofalus cyn dechrau.
- Bydd rhywun yn eich goruchwylio gydol yr amser rydych chi'n gweithio ar y dasg, ond byddwch yn gallu defnyddio'r rhan fwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i chi fel arfer mewn sefyllfa go iawn (gan gynnwys defnyddio'r rhyngrwyd, o bosib) yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Mae'n rhaid i bob darn o waith rydych chi'n ei gyflwyno fod yn waith rydych **chi eich hun a neb arall** wedi'i wneud. Does neb yn cael eich helpu gyda'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r dasg dan reolaeth hon.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich gwaith i gyd i mewn ar ddiwedd **pob** sesiwn. Chewch chi ddim mynd ag unrhyw rai o ddeunyddiau'r dasg i ffwrdd gyda chi, a chewch chi ddim gweld y deunyddiau rhwng sesiynau.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn **llofnodi'r datganiad** sydd yng nghefn y pecyn hwn ar ddiwedd eich sesiwn olaf yn gweithio ar y dasg.

Cyfarwyddiadau'r Dasg: Pleidleiswyr Ifanc

Beth mae angen i chi ddod o hyd iddo

Senario

Mae'r gweithgareddau yn y dasg hon yn sôn am bleidleisio yn y DU

Beth mae angen i chi ei wneud - Rhan 1

Darllen

Mae'n rhaid i chi ddarllen a syntheseiddio gwybodaeth o'r dogfennau yn y ffynonellau. Mae'n rhaid i chi gymharu a gwerthuso'r cynnwys yn feirniadol, gan nodi unrhyw ragfarn bosib.
Cewch edrych beth ydi ystyr unrhyw eiriau dydych chi ddim yn eu deall.

- Darllenwch y ddwy ddogfen yn y ffynonellau i'ch helpu i baratoi ar gyfer trafodaeth a chymryd rhan mewn trafodaeth ar y pwnc: 'A ddylid gostwng yr oedran pleidleisio i 16?'
- Defnyddiwch y wybodaeth sydd yn y dogfennau yn y ffynonellau a'r drafodaeth i gynllunio'r gwaith o ysgrifennu erthygl ar gyfer gwefan sy'n sôn am ostwng yr oedran pleidleisio.
- Dangoswch eich gwaith paratoi ar gyfer y drafodaeth. Gallwch ddefnyddio siart llif neu ddiagram pry cop, neu gallech wneud nodiadau ar y dogfennau yn y ffynonellau er mwyn amlygu'r prif bwyntiau, syniadau, dadleuon ac ymresymiadau ynddynt.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich gwaith i gyd i mewn, gan gynnwys unrhyw nodiadau neu gopïau drafft, ar ddiwedd pob sesiwn.

Adnoddau y dylech chi eu defnyddio:

Ffynhonnell 1: A ddylai pobl ifanc 16 oed gael pleidlais?
Ffynhonnell 2: Gan bwy mae'r amser neu'r awydd i bleidleisio? Dweud eich dweud.

Siarad a gwrando
Trafodaeth (yn para 15 munud o leiaf ar gyfer grŵp o 3-5 o bobl. Rydym yn disgwyl i grwpiau o 6 drafod am 25 munud o leiaf.)

Gan ddefnyddio gwybodaeth o'r ddwy ddogfen, cynlluniwch sut i fynd ati i gymryd rhan mewn trafodaeth ar y testun: 'A fyddai gostwng yr oedran pleidleisio yn syniad da?'

Mae'n rhaid i chi ddangos sut rydych wedi paratoi ar gyfer y drafodaeth.

Yn ystod y drafodaeth mae'n rhaid i chi gyfleu gwybodaeth gymhleth yn glir drwy wneud y canlynol:

- rhoi esboniadau
- mynegi teimladau a barn
- gofyn cwestiynau.

Mae'n rhaid i chi wneud cyfraniadau clir a pherthnasol; symud y drafodaeth yn ei blaen; ceisio cael cytundeb, lle bo hynny'n briodol; defnyddio iaith a chyfathrebu dieiriau priodol.

Ysgrifennu
Ysgrifennu llythyr at eich AS lleol yn rhoi eich barn/cyflwyno eich dadleuon ynghylch a ddylid gostwng yr oedran pleidleisio ai peidio.

Dylai eich erthygl fod o leiaf 750 gair o hyd.

Defnyddiwch y wybodaeth yn y dogfennau yn y ffynonellau a'r drafodaeth rydych chi wedi'i gwerthuso'n feirniadol a'i syntheseiddio.

Mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- llunio cynllun
- ysgrifennu/defnyddio prosesydd geiriau i lunio drafft cyntaf
- gwneud yn siŵr bod eich drafft yn gwneud synnwyr
- cywiro unrhyw gamgymeriadau
- llunio dogfen derfynol.

Gwnewch yn siŵr bod eich dogfen yn addas ar gyfer y diben a'r gynulleidfa. Dylai eich fersiwn terfynol fod yn gywir o ran sillafu, atalnodi a gramadeg. Dylech ddefnyddio paragraffau priodol a brawddegau llawn.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich gwaith i gyd i mewn, gan gynnwys unrhyw nodiadau neu gopïau drafft, ar ddiwedd **bob** sesiwn.

Beth mae angen i chi ei wneud - Rhan 2

Ysgrifennu

Ysgrifennu erthygl ar gyfer papur newydd lleol ynglŷn â pham roedd pobl wedi dewis peidio â phleidleisio yn yr etholiad cyffredinol yn 2015.

Dylech ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennych eisoes a/neu waith ymchwil annibynnol. Cewch ddefnyddio'r Rhyngrwyd (os yw ar gael) neu adnoddau eraill i wneud unrhyw waith ymchwil ychwanegol.

Mae'n rhaid i chi gael eich goruchwylio tra byddwch yn gwneud y gwaith ymchwil, a'i wneud o fewn y cyfnod gweithio a ganiateir, sef wyth wythnos olynol, ond mae hyn yn gallu bod yn ychwanegol at yr wyth awr sydd gennych chi i wneud y dasg dan reolaeth hon.

Mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- llunio cynllun
- ysgrifennu/defnyddio prosesydd geiriau i lunio drafft cyntaf
- gwneud yn siŵr bod eich drafft yn gwneud synnwyr
- cywiro unrhyw gamgymeriadau
- llunio drafft terfynol.

Gwnewch yn siŵr bod eich erthygl yn addas ar gyfer y diben a'r gynulleidfa. Dylai eich fersiwn terfynol fod yn gywir o ran sillafu, atalnodi a gramadeg. Dylech ddefnyddio paragraffau priodol a brawddegau llawn.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich gwaith i gyd i mewn, gan gynnwys unrhyw nodiadau neu gopïau drafft, ar ddiwedd pob sesiwn.

Beth mae angen i chi ei wneud - Rhan 3

Siarad a gwrando

Sgwrs/Cyflwyniad (o leiaf 8 munud o hyd gan bob ymgeisydd i gynulleidfa o 3 o bobl o leiaf)

Paratoi, ac yna rhoi, sgwrs/cyflwyniad i bobl eraill. Dylai eich cyflwyniad/sgwrs gynnwys delwedd neu ddeunyddiau ategol eraill i helpu eich cynulleidfa i ddeall neu i wella eu dealltwriaeth o'r hyn rydych yn ei ddweud.

Cewch ddewis eich testun eich hun ar gyfer y cyflwyniad/sgwrs ond dyma rai awgrymiadau:

- Pa rôl sydd gan y cyfryngau cymdeithasol i'w chwarae o ran dylanwadu ar bleidleiswyr?
- A ydi dynion a merched bellach yn gydradd?
- Sut gallwn ni fyw mewn modd mwy cynaliadwy?
- A ddylai'r GIG fod am ddim ar y cam darparu?
- A ydi TCC yn ein gwneud yn fwy diogel mewn gwirionedd?

Os ydych chi'n dewis pwnc arall, dylech allu cynnwys gwybodaeth ynddo sy'n ddigon cymhleth ar gyfer y lefel hon.

Cewch ddefnyddio nodiadau i'ch atgoffa wrth roi eich sgwrs/cyflwyniad, ond chewch chi ddim eu darllen yn uniongyrchol.

Dylai eich sgwrs/cyflwyniad fod wedi'i strwythuro'n dda a dylai fod yn addas ar gyfer y diben a'r gynulleidfa.

Mae'n rhaid i chi gadw at y pwynt ac esbonio'r prif bwyntiau yn glir, gan ddefnyddio nifer o wahanol strategaethau i gyfleu eich neges a hoelio sylw eich cynulleidfa.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich gwaith i gyd i mewn, gan gynnwys unrhyw nodiadau neu gopïau drafft, ar ddiwedd bob sesiwn.

Ffynhonnell 1

A ddylai pobl ifanc 16 oed gael pleidlais?

Un o nodweddion amlycaf etholiadau cyffredinol diweddar yw'r gostyngiad yn y nifer o bleidleiswyr ifanc sy'n troi allan i bleidleisio. Mae cyfradd y bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed sy'n pleidleisio wedi gostwng o 60% yn y 1990au cynnar i 40% yn y degawd diwethaf. Y cwestiwn i'w ofyn, felly, ydi: a fydd mwy o bleidleiswyr ifanc yn bwrw eu pleidlais os ydym yn gostwng yr oedran pleidleisio i 16?

Mae Stephen Williams, y Democrat Rhyddfrydol sydd wedi bod yn hyrwyddo'r ddadl yn y senedd i ostwng yr oedran pleidleisio i 16, wedi dweud y byddai hwn yn 'gam hollbwysig tuag at adfywio democratiaeth ym Mhrydain'. Roedd yn honni bod cefnogaeth helaeth ymysg AS ac elusennau pobl ifanc i ehangu'r hawl i bleidleisio i'r 1.5 miliwn o bobl ifanc 16 ac 17 oed sydd ym Mhrydain.

Efallai bod hyn yn wir, ond sut y bydd hyn yn helpu i ennyn diddordeb pleidleiswyr ifanc mewn gwleidyddiaeth ac, yn bwysicach na hynny, eu hannog i fynd allan a bwrw pleidlais oleuedig mewn etholiadau? Dydi rhoi'r bleidlais i bobl ifanc 16 ac 17 oed ddim yn golygu y byddan nhw'n rhuthro allan i'r gorsafoedd pleidleisio.

Cyn dechrau sôn am ostwng yr oedran pleidleisio, efallai y dylai dinasyddion ifanc gael mwy o gyfleoedd i ennill sgiliau a phrofiad gwleidyddol a chael gwybodaeth am wleidyddiaeth. Byddai hyn yn eu helpu i ddod i benderfyniad ynghylch y blaid wleidyddol fydd yn diwallu eu hanghenion orau yn awr ac yn y dyfodol.

Dim ond yn Lloegr a Gogledd Iwerddon y mae dysgu am ddinasyddiaeth yn bwnc statudol ac mae'r ddarpariaeth ar draws y DU yn anghyson ac yn fylchog, yn ôl adroddiad ym mhapur newydd The Guardian. Yn yr Alban, dim ond traean o Albanwyr ifanc sy'n dilyn cwrs astudiaethau modern sy'n cwmpasu hanes, gwleidyddiaeth a materion cyfoes. Yng Nghymru, disgwylir i bob sefydliad addysgol gynnwys Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang fel rhan o'r cwricwlwm.

Anaml iawn y bydd pobl ifanc yn cael profiad o wleidyddiaeth cyn pleidleisio. Yn aml, nid oes gan gynghorau ysgolion fawr o ddylanwad ac mae toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol yn golygu bod llai o gynghorau ieuenctid i ymuno â nhw. Mae Cynulliad Cymru wedi gostwng y cyllid sydd ar gael i'w senedd genedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, Y Ddraig Ffynci. Mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi adnoddau prin mewn rhaglen Gwasanaeth Dinasyddiaeth Genedlaethol sydd ddim yn ceisio hybu cyfranogiad na llythrennedd mewn gwleidyddiaeth.

Mae pleidiau gwleidyddol yn deall ac yn cynrychioli buddiannau pleidleiswyr hŷn. Pleidlais y rhain sy'n cyfrif 'ar y noson'. Yn yr etholiad cyffredinol yn 2015, roedd 78% o bobl dros 55 oed wedi bwrw pleidlais, ond dim ond 43% o bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed oedd wedi gwneud hynny. O ganlyniad, pa grŵp oedran y mae pleidiau gwleidyddol fwyaf tebygol o'i dargedu?

Yn ôl Dr James Sloam, yr arbenigwr gwleidyddol, mae pleidiau yn canolbwyntio ar y carfanau hynny o'r etholwyr lle mae ganddynt eisoes gefnogaeth gref wrth lunio eu

polisïau. Er hynny, mae’n ddiddorol bod y pleidiau hynny oedd wedi rhoi'r mwyaf o sylw i bobl ifanc yn eu polisïau hefyd wedi gwneud yn well ymysg y grŵp hwnnw.

Felly, efallai bod gan y to iau ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth. Ond, mae’n rhaid i bleidiau ddeall bod angen i'w maniffesto gynnwys pynciau, gwasanaethau ac adnoddau sy’n berthnasol i bobl ifanc.

Mae Dr Sloam o'r farn bod llawer o bobl ifanc wedi’u siomi gan bolisïau cyhoeddus. Nhw sydd wedi dioddef fwyaf yn sgil toriadau i wariant cyhoeddus: o ddileu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn Lloegr, i'r cynnydd mewn ffioedd prifysgol, cael gwared â budd-daliadau tai ar gyfer oedolion ifanc a chau canolfannau ieuenctid lleol.

Ond, fel y mae hefyd yn nodi, ac mae’n llygad ei le yn gwneud hyn, mae llawer o bobl ifanc yn y DU yn weithgar mewn mathau eraill o weithgareddau gwleidyddol a dinesig sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw yn eu bywydau bob dydd, gan gynnwys: gwirfoddoli ar gyfer prosiectau cymunedol, llofnodi deisebau a chymryd rhan mewn protestiadau.

Mae adroddiad yn The Guardian yn awgrymu bod pobl ifanc yn cael eu dirprwyo i'r adain ieuenctid lle mae eu buddiannau nhw o ran polisïau yn aml yn cael eu gwthio i'r cyrion. Nid oes unrhyw grŵp oedran arall yn cael ei drin felly. Ychydig iawn o gyfalaf gwleidyddol sy'n cael ei fuddsoddi at ddibenion rhoi sylw i ddiddordebau a buddiannau pobl ifanc yn benodol. Yn nodweddiadol, mae’r ychydig bolisïau sy’n canolbwyntio ar bobl ifanc yn cael eu datblygu mewn ‘swyddfeydd oddi fry’ gan bobl hŷn, felly a oes unrhyw syndod nad yw pobl ifanc yn teimlo fawr o gyswllt â gwleidyddiaeth prif ffrwd? Pa bwrpas sydd mewn gostwng yr oedran pleidleisio os nad yw gwleidyddion yn gallu ymgysylltu â phobl ifanc rhwng 18 a 24 oed, heb sôn am bobl ifanc 16 ac 17 oed?

Mae angen i bleidiau gwleidyddol wneud mwy i gynnwys pobl ifanc, drwy ddarparu platfform realistig a chynhwysfawr iddynt lle maent yn gallu cynnig mewnbwn adeiladol, os yw eu pleidlais am gael unrhyw arwyddocâd gwirioneddol. Mae angen i'r genhedlaeth iau gael llais a theimlo eu bod yn rhan o'r holl broses wleidyddol, nid eu gadael ar eu pennau eu hunain heb gefnogaeth. Nid yw'r drefn wleidyddol yn y DU ar hyn o bryd wedi'i chyfarparu i gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed felly efallai y dylai gwleidyddion roi’r gorau i ddibynnu ar bleidleiswyr hŷn ac ymorol am genedlaethau'r dyfodol.

Ac eto, mae rhai yn dadlau y dylai'r oedran pleidleisio gyfateb i'r oedran y mae dinasyddion ifanc yn cael hawliau eraill sydd gan oedolion. Maent yn dadlau bod pobl ifanc 16 i 17 oed yn cael ymuno â'r fyddin, priodi neu dalu trethi, felly pam nad ydyn nhw’n cael pleidleisio? Ond, rhaid cael caniatâd rhiant i ymuno â'r fyddin neu briodi yn 16 neu’n 17 oed ac erbyn hyn mae’n rhaid i bobl ifanc fod yn 18 oed cyn eu bod yn cael prynu sigaréts.



Efallai bod gennym rywbeth i'w ddysgu gan yr Alban. Yno, roeddynt wedi rhoi'r hawl i bobl ifanc 16 i 17 oed bleidleisio ac wedi rhoi sylw i'r materion oedd yn effeithio ar y grŵp oedran hwn, yn awr ac yn y dyfodol. Roedd y bobl ifanc hyn wedi ymwneud yn frwd â'r ymgyrchoedd ac wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ddadl gyhoeddus am ddyfodol cyfansoddiadol yr Alban. Roedd hyn wedi gwneud cymaint o argraff ar gyn brif weinidog yr Alban, Alex Salmond, nes iddo ddweud nad oedd 'rhithyn o dystiolaeth dros ddadlau na ddylai pobl ifanc 16 ac 17 oed gael yr hawl i bleidleisio'. Barn The Guardian, sydd braidd yn sgeptig yw y byddai wedi bod yn destun syndod mawr pe na bai pobl ifanc wedi ymwneud ag ymgyrch refferendwm oedd wedi cael lle mor flaenllaw ym mywyd cyhoeddus yr Alban am ddwy flynedd.

Ond beth yn union mae gostwng yr oedran pleidleisio o 18 i 16 yn ei olygu mewn gwirionedd? Efallai ei bod yn amlwg y gallai pleidleisiau pobl ifanc 16 ac 17 oed gynyddu nifer y bobl sy'n troi allan mewn etholiadau ond ni fydd hyn, o anghenraid, yn ymdrin â'r broblem bod cyn lleied o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn troi allan i bleidleisio. Mae llawer o wleidyddion yn teimlo y byddai gostwng yr oedran pleidleisio yn ddi-fudd ac y gallai fod yn beryglus.

Cyfeiriadau
Cyf: Cyf yr erthygl yn The Guardian
http://www.independent.co.uk/news/uk/politics/generalelection/general-election-2015-explained-turnout-
http://www.electionanalysis.uk/uk-election-analysis-2015/section-2-voters/bringing-out-the-youth-vote-young-people-and-the-2015-general-election/

Ffynhonnell 2

Gan bwy mae'r amser neu’r awydd i bleidleisio? Dweud eich dweud.

Mae'r mwyafrif o bleidiau gwleidyddol, sefydliadau ieuenctid a rhai papurau newydd hyd yn oed yn cefnogi'r cynnig i ostwng yr oedran pleidleisio yn y DU i 16.

A ydyn nhw’n bwriadu cynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed neu ai'r cwbl maen nhw’n ei wneud yw ceisio cynyddu nifer y bobl sy’n troi allan i bleidleisio mewn etholiad a rhoi hwb i'r gyfradd isel o bobl ifanc sy’n pleidleisio'r dyddiau hyn?

Efallai bod hwn yn safbwynt sgeptig, ond, mewn gwirionedd, pa ganran o bobl ifanc 16 i 17 oed sydd â'r amser, neu'r awydd, i ymwneud â gweithgareddau neu â thrafodaethau gwleidyddol?

Rydyn ni wedi cyfweld â hap-sampl o bobl ifanc 16 i 17 oed mewn gwahanol rannau o Gymru i gael eu barn nhw ar ostwng yr oedran pleidleisio i 16.

Bryan G, Casnewydd:

‘Mi hoffwn i ymwneud mwy â gwleidyddiaeth, yn enwedig yn f'ardal i, lle mae gwaith i'w wneud ond maen nhw’n meddwl fy mod i’n rhy ifanc i sefyll fel ymgeisydd, cerdded y strydoedd i berswadio pobl i bleidleisio dros blaid benodol neu i ymwneud yn arwyddocaol â'r materion dan sylw. Roeddwn i’n 16 adeg yr etholiad yn 2015 a byddwn wedi hoffi cael dweud fy nweud a bwrw pleidlais. Pe bai mwy o bwyslais yn cael ei roi ar bwysigrwydd sicrhau bod pobl ifanc yn cael dweud eu dweud a phe bai hynny’n cael ei hwyluso, efallai y byddai mwy o bobl yn gwneud yr ymdrech i ddod o hyd i'r amser i gyfrannu’.

Sasha D, Caerdydd:

‘Pe bawn i’n pleidleisio, mi fyddwn i’n gwneud yr un peth ag y mae cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o fy nheulu wedi’i wneud. Mae’r holl bropaganda sydd ar y teledu adeg etholiadau yn gwneud i mi deimlo’n flin ac yn ddiflas. Sut gallwch chi gredu beth mae unrhyw un ohonyn nhw’n ei ddweud? Does yna neb yn sôn am y pethau sydd o bwys i’n grŵp oedran ni, y materion go iawn. Dydyn ni ddim yn prynu tai, dydyn ni ddim yn talu trethi ar hyn o bryd, a does ddim angen clun newydd arnon ni! Pam ddylwn i ymhél â phroses sy’n amherthnasol i mi? Dwi’n gwybod bod f'agwedd i yn negyddol ond mae yna ormod o bethau’n digwydd yn fy mywyd i i wrando ar wleidyddion sy’n meddwl eu bod nhw’n well na phobl eraill.’

Linda J, Abertawe:

‘Pam mae gwleidyddion am i ni bleidleisio? Er mwyn 'gwthio’r niferoedd i fyny? Rydw i’n 17 oed ac ar ganol f’arholiadau Lefel-A. Mae cymwysterau’n bwysicach i mi nag etholiad sydd ddim yn mynd i gael unrhyw effaith arna i hyd y gwelai. Dwi’n treulio fy holl amser yn astudio a does gen i ddim amser i wrando ar y gwleidyddion a'r pleidiau i gyd ac yna gwneud dewis gwybodus. Dwi’n sylweddoli bod hyn yn ymddangos fel pe bawn i ond yn meddwl am bethau yn y tymor byr, ond dyna sut dwi'n teimlo’.

Jac W, Porthmadog:

‘Dwi’n meddwl ei fod yn grêt o beth ein bod yn cael ein hystyried yn bobl aeddfed sy’n cael dweud eu dweud. Yr hyn sy'n fy mhoeni i ydi, sut mae mynd ati i gael gwybod am y gwahaniaethau rhwng y pleidiau, beth sydd ganddyn nhw i'w gynnig i mi nawr ac yn y dyfodol a pha effaith maen nhw am ei chael ar Gymru ac ar y DU gyfan. Mae gen i ddwy swydd ran-amser; dwi’n gweithio mewn bwyty ddwy noson yr wythnos ac mewn siop ar ddydd Sadwrn. Mae hynny ar ben y cwrs amser llawn dwi'n ei ddilyn yn y coleg. Mae bod yn 16 yn galed! Byddai’r pwysau ychwanegol o wneud penderfyniad sy’n gallu effeithio ar fy ngwlad, heb gael amser i edrych i mewn i'r peth yn iawn, yn straen go iawn’.

Aaron K, Abergwaun:

‘Dwi’n meddwl y bydd yna ddigon o amser yn y dyfodol i fod yn ddifrifol a deall beth mae'r gwleidyddion yn sôn amdano. Dim ond 16 ydw i, a dwi ar fin gwneud f'arholiadau TGAU a phenderfynu beth dwi’n mynd i wneud yn y dyfodol. Y prif flaenoriaethau i mi ar hyn o bryd ydi cael y cymwysterau sydd eu hangen arna i a chael hwyl gyda fy ffrindiau. Dwi am fynd i deithio pan fyddai’n 18 oed felly dydw i ddim yn malio'r un botwm corn am wleidyddiaeth.

Gwyn J, Llanfair-ym Muallt:

‘Dwi’n credu ei bod yn hanfodol bwysig fod pobl f’oedran i yn dechrau dod i ddeall sut mae'r broses wleidyddol yn gweithio a’r maniffestos mae pob plaid yn eu cyflwyno, yn ogystal â dechrau gwrando ar y bobl sy’n ein cynrychioli neu a fydd, o bosib, yn ein cynrychioli yn y Senedd. Bydd y cynrychiolwyr etholedig, fel corff, yn siapio dyfodol ein cymdeithas a dyfodol cenedlaethau'r dyfodol. Mae ceisio cadw fy ngwybodaeth yn gyfoes am holl ferw’r byd gwleidyddol yn dipyn o faich ac yn mynd ag amser ond mae’n bwysig gwneud hynny os ydi pobl ein hoedran ni am gael llais yn ein dyfodol.’

Datganiadau

Mae'n **rhaid** llenwi datganiad yr ymgeisydd a datganiad yr aseswr.

Enw'r Ymgeisydd: _____

Datganiad yr ymgeisydd:

Rwyf yn cadarnhau mai fy ngwaith fy hun yn gyfan gwbl yw hwn a fy mod wedi'i wneud yn ystod y sesiynau wedi'u goruchwylio sydd wedi'u nodi ar glawr blaen y llyfryn hwn.

Llofnod yr ymgeisydd Dyddiad _____

At ddefnydd staff y ganolfan a'r corff dyfarnu yn unig

Datganiad yr aseswr:

Rwyf yn cadarnhau bod yr ymgeisydd hwn wedi cyrraedd y safon sy'n ofynnol ar gyfer y dasg dan reolaeth. Cynhaliwyd y dasg dan reolaeth yn unol â'r amodau a nodwyd a'i chwblhau o fewn y cyfnod gweithio a'r gofynion o ran amser gweithio.

Llofnod yr aseswr Dyddiad _____

Datganiad y Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA):

(os samplwyd)

Rwyf wedi sicrhau ansawdd y gwaith hwn yn fewnol ac rwyf yn cadarnhau bod y safonau wedi cael eu bodloni.

Llofnod yr IQA Dyddiad _____

Datganiad y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol (EQA):

(os samplwyd)

Rwyf wedi sicrhau ansawdd y gwaith hwn yn allanol ac rwyf yn cadarnhau bod y safonau wedi cael eu bodloni.

Llofnod yr EQA Dyddiad _____